**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD 04-01(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 14 Mawrth 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.05pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Rory O'Sullivan (eitem 2) | Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Mike Dunn (eitemau 2 a 4) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Tony Edwards (eitem 2) | Prif Swyddog Milfeddygol |
| Terri Thomas (eitem 4) | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| *Awdurdod Datblygu Cymru* | |
| Hilary Hendy | Cyfarwyddwraig Weithredol Dros Dro, Rhyngwladol a Marchnata |
| David Jones | Rheolwr Marchnata |
| Wynfford James | Cyfarwyddwr, Y Gyfarwyddiaeth Fwyd |
| Paul O'Donovan | Rheolwr Datblygu Rhaglenni |
| Ann Watkin | Pennaeth Polisi Gwledig |
| *Bwrdd Croeso Cymru* | |
| Gillian Berntsen | Pennaeth Marchnata'r DG |

| | |
|---|---|
| Janet Pogson | Ymgynghorydd Marchnata Twristiaeth Fferm |
| Nigel Adais | Pennaeth Cynllunio Datblygu |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Jones a Peter Rogers. Yr oedd Karen Sinclair yn dirprwyo dros Carwyn Jones a David Davies dros Peter Rogers. Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel ffermwr a dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** - ARD 04-01(p1)
2.1 Cymerwyd lle Carwyn Jones gan Delyth Evans, y Dirprwy Weinidog.

2.2 Nodwyd y cynnydd a oedd wedi ei wneud â thaliadau i ffermwyr dan y cynllun Tir Mynydd a'r cynllun Buchod Sugno. Gofynnwyd am yr wybodaeth ddiweddaraf yngl^yn â faint o daliadau a oedd wedi eu gwneud ac a oedd achosion a oedd wedi eu dal yn ôl oherwydd mân gamgymeriadau biwrocrataidd yn cael eu hadolygu er mwyn gwneud taliadau'n gynt. Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu nodyn yngl^yn â'r cynnydd ac yngl^yn â'r hyn a oedd yn cael ei wneud er mwyn gallu gwneud taliadau a oedd wedi eu dal yn ôl oherwydd camgymeriadau yn gynt.

2.3 Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a oedd unrhyw rai o'r safleoedd a oedd wedi eu dewis ar gyfer arfarniadau graddfa fferm yng nghyswllt organebau a addaswyd yn enetig yn agos i Gymru. Nid oedd yr wybodaeth hon gan y Dirprwy Weinidog a chytunodd i ymateb yn ysgrifenedig.

2.4 Codwyd pwnc cymorth llifogydd. Adroddwyd bod Franz Fischler, Comisiynydd Amaeth yr UE, wedi dweud bod arian ar gael dan y Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn helpu i sicrhau bod modd ailddechrau defnyddio tir amaethyddol a oedd wedi dioddef llifogydd. Nododd y Pwyllgor fod yr arian a oedd ar gael i Gymru dan y Cynllun Datblygu Gwledig wedi ei ffrwyno, a bod y swm llawn wedi ei ddyrannu'n barod, a bod hyn yn golygu na ellid cael rhagor o arian tuag at gymorth llifogydd. Nododd y Pwyllgor hefyd fod modd gwneud un newid i'r Cynllun Datblygu Gwledig bob blwyddyn. Byddai eglurhad ysgrifenedig llawn yn cael ei ddarparu.

2.5 Trodd y Pwyllgor ei sylw wedyn at glwy'r traed a'r genau. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Gweinidog mewn cyfarfod yn Llundain gyda gweinidogion eraill o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn trafod y sefyllfa. Yr oedd 12 achos wedi eu cadarnhau yng Nghymru erbyn hyn a 10 dan amheuaeth.

2.6 Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog am fwy o wybodaeth yngl^yn â'r Tasglu a oedd wedi ei sefydlu yn Lloegr a beth oedd ei gylch gorchwyl. Gwnaethpwyd y pwynt bod angen ymateb cenedlaethol ac

arweiniad clir yng Nghymru a bod rôl ar gyfer tasglu, yn seiliedig o bosibl ar fframweithiau sy’n bodoli’n barod, yng nghyswllt llunio strategaethau i helpu’r economi wledig i gael ei thraed dani pan fyddai’r argyfwng drosodd. Dylid cynnwys y sector busnes a’r banciau hefyd.

2.7 Nododd y Pwyllgor fod cylch gorchwyl y Tasglu yn cynnwys twristiaeth, mynediad i gefn gwlad a’r economi wledig. Yr oedd ar gyfer Lloegr yn unig ond yr oedd gan Gymru statws sylwedydd. Yr oedd yr holl faterion yr oedd y Tasglu’n eu hystyried yn cael sylw’n barod yng Nghymru. Nid oedd y posibilrwydd o dasglu ar gyfer Cymru wedi ei ddiystyru, ond yr oedd y Cynulliad, beth bynnag, yn cysylltu’n ddyddiol gyda phob corff a oedd â diddordeb. Yr oedd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd wedi siarad gyda’r prif fanciau a byddai ef a’r Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gwneud datganiadau yn y Cyfarfod Llawn drannoeth.

2.8 Yr oedd Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad yn paratoi cyngor i ffermwyr a oedd yn cynnwys papur cwestiynau ac atebion, pa symptomau i chwilio amdanynt, a gwybodaeth yngl^yn â thrwyddedau ar gyfer symud anifeiliaid i ladd-dai ac i ddibenion lles. Byddai’r cyngor yn cael ei ddosbarthu drwy’r post pan fyddai’r archwiliadau danfon wedi eu cwblhau gyda Swyddfa’r Post. Yr oedd cyngor ar gael hefyd ar y we, ar safle’r Cynulliad, safle’r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a safleoedd eraill.

2.9 Yr oedd Nick Brown wedi awgrymu efallai y byddai angen difa defaid tac. Gallai posibiliadau eraill yn lle lladd 500,000 o ddefaid iach gynnwys system o gyflwyno trwyddedau er mwyn dod â defaid yn ôl adref y tu allan i ardaloedd heintiedig neu helpu gyda bwydo ac wyna. Cytunodd y Dirprwy Weinidog fod angen mwy nag un ateb a dywedodd mai’r bwriad oedd nodi nifer o gamau, a fyddai’n gymesur ac yn briodol, er mwyn ymateb i wahanol amgylchiadau.

2.10 Codwyd pwnc trwyddedau symud. Yr oedd trwyddedau galwedigaethol yn caniatáu symud fwy nag unwaith heb fod yn bellach na 500 medr o’r fferm. Yr oedd trwyddedau symud lleol yn caniatáu un symudiad hyd at 10 cilomedr. Yr oedd anawsterau’n codi os oedd angen symud anifeiliaid a bod y trywydd mwyaf uniongyrchol yn croesi ardal heintiedig. Nododd y Pwyllgor fod y trefniadau trwyddedu’n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng lles anifeiliaid a’r perygl o heintio. Byddai’r amodau a oedd ynghlwm wrth drwydded yn caniatáu’r trywydd mwyaf uniongyrchol a oedd yn briodol i’r ystyriaethau hyn.

2.11 Galwodd yr aelodau am gyhoeddi cyfarwyddyd yngl^yn â pha weithgareddau y gellid ac y dylid caniatáu iddynt fynd rhagddynt mewn ardaloedd gwledig a pha rai y dylid eu canslo. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y sefyllfa’n newid yn ddyddiol a’i bod yn anodd llunio canllawiau pendant. Er hyn, mae’n bosibl y byddai’r darlun yn gliriach yn dilyn cyfarfod y Gweinidog yn Llundain y diwrnod hwnnw.

2.12 Gofynnwyd nifer o gwestiynau manwl eraill i’r Dirprwy Weinidog:

- a fyddai’r achos a gofnodwyd yn Ffrainc a chysylltiad y Comisiwn Ewropeaidd yn effeithio ar Gymru? Nododd y Pwyllgor fod y rheolyddion a sefydlwyd yn Ffrainc wedi eu hystyried gan y

Pwyllgor Milfeddygol Sefydlog. Yr oedd milfeddygon y Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn edrych ar reolyddion y DG;

- a oedd unrhyw ddatblygiadau gyda'r polisi ar frechu neu ar ladd er mwyn sefydlu cadwyn iechydol o amgylch ardaloedd heintiedig? Nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Milfeddygol Sefydlog yn adolygu'r polisi brechu'n gyson ond nad oedd brechu'n cael ei ystyried yn ffordd hyfyw o reoli'r clwy ar hyn o bryd;
- pa drefniadau a oedd yn cael eu hystyried mewn perthynas â chael gwared ar stoc neu dalu iawndal yng nghyswllt stoc mewn ardaloedd heintiedig na ellid eu symud na'u gwerthu? Nododd y Pwyllgor fod y materion hyn yn cael eu hystyried yn y cyfarfod yr oedd y Gweinidog yn ei fynychu ac y byddai datganiadau'n cael eu gwneud cyn bo hir;
- mynegwyd pryder bod ^wyn yn dal i deithio pellteroedd maith i gael eu lladd, gan fynd drwy ardaloedd heintiedig ambell waith. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai'r sefyllfa'n cael ei harchwilio pe teimlid bod yr amodau a oedd ynghlwm wrth y drwydded symud yn cael eu diystyru neu eu bod yn amhriodol;
- awgrymwyd y dylai milfeddyg archwilio'r holl stoc ar y fferm cyn eu hanfon i'w lladd. Nododd y Pwyllgor fod yr adnoddau i wneud archwiliadau milfeddygol yn brin. Gellid edrych ar y mater drachefn pe bai mwy o broblemau'n codi;
- a oedd unrhyw un wedi cysylltu â lladd-dai ac archfarchnadoedd er mwyn sicrhau bod ffermwyr yn cael pris teg am eu stoc? Nododd y Pwyllgor fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd;
- a oedd unrhyw drafodaethau wedi eu cynnal gyda llywodraeth Iwerddon yngl^yn ag atal mewnforio cynnyrch llaeth yn wyneb y ffaith fod 700 o'r ^wyn a oedd wedi eu hallforio o Gymru heb eu holrhain? Nododd y Pwyllgor y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

2.13 Nododd y Pwyllgor ei werthfawrogiad o waith staff y Cynulliad, yn enwedig y swyddogion maes yn y swyddfeydd rhanbarthol.

*Pwyntiau gweithredu*

2.14 Nodyn i'w ddarparu ynglyn â'r sefyllfa ddiweddaraf gyda thaliadau sydd wedi eu gwneud i ffermwyr dan y cynllun Tir Mynydd a'r cynllun Buchod Sugno a beth sy'n cael ei wneud er mwyn gwneud taliadau'n gynt. (Ceir copi o'r llythyr a ddarparwyd yn atodiad 1) – **Gweinidog** (Is-adran Polisi Amaethyddol)

2.15 Nodyn i'w ddarparu yn datgan a oes unrhyw safleoedd sydd wedi eu nodi ar gyfer Arfarniadau Graddfa Fferm yng nghyswllt Organebau a Addaswyd yn Enetig yn agos i Gymru (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 4)– **Gweinidog** (Is-adran Cefn Gwlad)

2.16 Eglurhad i'w ddarparu yngl^yn â'r sefyllfa gyda chymorth llifogydd dan y Cynllun Datblygu Gwledig (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn atodiad 3)– **Gweinidog** (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio)

2.17 Llythyr i'w ddarparu ar a fu trafodaethau ynghylch mewnforion cynnyrch llaeth gyda Llywodraeth

Iwerddon. (Ceir copi o'r llythyr a ddarparwyd yn atodiad 2) – **Gweinidog** (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio)

**Eitem 3: Adolygu Arallgyfeirio** - ARD 04-01(p2); ARD 04-01(p3)
3.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i'r cyfarfod.

3.2 Cyflwynodd Hilary Hendy a Gill Berntsen eu cydweithwyr a rhoddasant amlinelliad o'r prif bwyntiau a oedd yn eu papurau. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau a chwestiynau gan y Pwyllgor a chodwyd y pwyntiau isod.

3.3 Nodwyd bod economi Iwerddon yn gryf iawn. A oedd digon yn cael ei wneud i hybu a manteisio ar goridorau'r A55 a'r M4?

- dywedodd Hilary Hendy fod KMPG newydd gwblhau astudiaeth ar gyfer yr Awdurdod Datblygu a oedd yn dod i'r casgliad bod gordwymo economi Iwerddon yn arwain at gyfleoedd i Gymru. Yr oedd yn bwysig fodd bynnag i Gymru wledig ganolbwyntio ar fusnesau a oedd yn cynnig gwerth ychwanegol. Nid oedd Cymru'n meddu ar yr un banc sgiliau ag Iwerddon ac yr oedd angen rhoi sylw i hyn os am greu swyddi o ansawdd gwell.

3.2 A oedd archfarchnadoedd yn ymwneud â'r gwaith o labelu bwyd o Gymru? Nodwyd ei bod yn llawer haws cael gafael ar gynnyrch o Iwerddon neu'r Alban ar y rhyngrwyd nag oedd hi i gael gafael ar gynnyrch o Gymru. Yr oedd angen gwneud llawer mwy er mwyn datblygu marchnadoedd ffermwyr, yn enwedig mewn ardaloedd fel cymoedd y de.

- cytunodd Hilary Hendy fod yr Alban ac Iwerddon yn fwy ymwybodol o'r farchnad na Chymru. Yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n rhoi sylw i fynediad i'r rhyngrwyd drwy Strand 6 a phrosiectau eraill. Dywedodd fod isadeiledd gwybodaeth a chyfathrebu da (TGCh) yn hanfodol er mwyn i Gymru wledig allu cystadlu a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer busnes. Yr oedd astudiaeth gynhwysfawr o'r isadeiledd TGCh presennol wedi ei chomisiynu.
- Dywedodd Wynfford James fod angen i labeli bwyd Cymru gydio yn nychymyg defnyddwyr. Yr oedd llawer o waith yn cael ei wneud, yr oedd y prif gyfranogion yn derbyn gwybodaeth gyson ac yr oedd yr Awdurdod Datblygu'n gweithio mewn cysylltiad agos â'r Bwrdd Croeso a'r Cynulliad. Yr oedd archfarchnadoedd yn storio mwy a mwy o gynnyrch Cymreig ac yr oedd cynnyrch newydd yn cael eu datblygu yn y Canolfannau Rhagoriaeth. Byddai gan Gwmni Cig Cymru hefyd ran allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu brandiau Cymreig. Cyn belled ag yr oedd paratoi strategaethau ar gyfer adfer marchnadoedd pan fyddai clwy'r traed a'r genau drosodd yn y cwestiwn yr oedd y strategaeth Bwyd-Amaeth yn cynnig ffordd o weithio gyda chynhyrchwyr, proseswyr ac adwerthwyr ar hyd y gadwyn fwyd. Byddai'n bwysig gweithio gyda'r partneriaid hyn er mwyn datblygu strategaethau adfer.
- Dywedodd Paul Donovan fod Awdurdod Datblygu Cymru drwy ei Raglen sianelau Marchnad yn cyd-weithio ag archfarchnadoedd i gael mwy o wahanol gynnyrch Cymreig. Yr oedd angen

dangos mwy o fenter a chyflwyno’r cynnyrch yn well cyn y gallai cynnyrch Cymreig gystadlu’n llwyddiannus. Yr oedd cefnogaeth yn cael ei chynnig i farchnadoedd ffermwyr ym mhob rhan o Gymru ac yr oedd Sioe Ben Ffordd Profiad o Fwyd o Gymru yn ymweld â digwyddiadau amrywiol yng Nghymru, yng ngweddill Prydain ac ar y cyfandir. Nid oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i dargedu defnyddwyr Ewropeaidd ond yr oedd ymdrechion yn cael eu canolbwyntio ar y lefel fasnachu. Yr oedd deunydd ar gyfer y we’n cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi’r strategaeth farchnata. Dangosodd ymchwil fod Cymru’n cael ei gweld fel gwlad lân a gwyrdd ond nid oedd hyn yn ddigon, ac yr oedd strategaeth labelu fwy soffistigedig yn cael ei datblygu.

3.5 Yr oedd papur yr Awdurdod Datblygu’n ymddangos fel pe bai’n beirniadu Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig y ddangoseb amddifadiad lluosog. Yr oedd gan rai o’r wardiau a oedd ymhlith y 100 ward fwyaf difreintiedig lawer o ardaloedd gwledig ond nid oeddent mewn siroedd a oedd yn cael eu hystyried yn wledig fel arfer.

- Dywedodd Ann Watkin fod yr Awdurdod Datblygu’n gwbl gefnogol i’r cynllun ’Rhoi Cymunedau’n Gyntaf’, ond ei fod yn bryderus ynghylch y ffordd yr oedd y ddangoseb amddifadiad yn cael ei defnyddio mewn cyd-destun gwledig. Roedd y ddangoseb newydd yn well na’r ddangoseb flaenorol, gan ei bod yn ystyried mynediad at wasanaethau, ac ati, ond rhoddwyd pwysigrwydd cymharol isel i hwn yn y ddangoseb gyffredinol. Yn yr un modd, roedd diweithdra yn draddodiadol yn fesurydd "gwael" mewn ardaloedd gwledig, tra bo tangyflogaeth yn fater allweddol. A hithau’n derbyn bod ardaloedd gwledig yn bodoli o fewn siroedd nas ystyriwyd fel arfer yn ardaloedd gwledig, cydnabu Ann Watkin adroddiad dros dro’r Pwyllgor a chefnogodd eu hargymhelliad i gytuno ar ddiffiniad cyffredin o Gymru wledig. Fodd bynnag, credai y byddai defnyddio’r ddangoseb hon yn unig yn tueddu i ffafrio ardaloedd trefol, neu ar y gorau’r canolfannau trefol mewn ardaloedd gwledig, a mynodd y dylid hefyd ystyried gwybodaeth leol. Ychwanegodd Ann Watkin bod achosion amddifadiad gwledig, megis anawsterau manteisio ar y gwasanaethau, eu bod yn ymylol, dwysedd poblogaeth isel, ac ati, yn gofyn i gamau gael eu cymryd dros ardal ddaearyddol fwy, yn hytrach na thargedu ardaloedd sydd islaw’r lefel ED fel yr awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghorol.

3.6 Yr oedd papur yr Awdurdod Datblygu’n cyfeirio at waith a oedd yn cael ei wneud gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru er mwyn datblygu trefniadau cydweithredol ar gyfer swyddfeydd post a busnesau eraill mewn ardaloedd gwledig. Pam ei bod yn ymddangos mai dim ond ar gyfer busnesau a oedd yn methu neu a oedd yn cael trafferthion yr oedd trefniadau o’r fath yn cael eu hystyried?

- Dywedodd Hilary Hendy fod hwn yn faes newydd i’r Awdurdod Datblygu a bod angen ei ddatblygu.

3.7 Yr oedd y Comisiwn Coedwigaeth yn Lloegr yn gweithio er mwyn datblygu twristiaeth yn enwedig drwy goetiroedd hynafol. A oedd rhywbeth tebyg yn cael ei wneud yng Nghymru? Beth oedd yn cael ei wneud er mwyn datblygu gwyliau thema a oedd yn manteisio ar iaith, diwylliant ac amgylchedd adeiledig Cymru?

- Dywedodd Gillian Berntsen fod y Bwrdd Croeso yn gweithio mewn cysylltiad agos â’r Comisiwn Coedwigaeth ac eraill gan gynnwys awdurdodau lleol er mwyn datblygu strategaeth twristiaeth beicio yn dwyn y teitl "Moving up a Gear". Cyn gynted ag y byddai’r strategaeth hon a strategaethau eraill wedi eu sefydlu byddent yn cael eu marchnata ar lefel leol a chenedlaethol. Yr oedd potensial aruthrol i wyliau thema yng Nghymru wledig. Yr oedd angen datblygu’r sector ond yr oedd yn faes cymhleth.

3.8 Pa mor rhwydd oedd hi i gael grantiau i alluogi busnesau twristiaeth i ddatblygu a pha strategaethau a oedd yn bodoli er mwyn datblygu prosiectau gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol?

- Dywedodd Nigel Adams fod y Bwrdd Croeso yn defnyddio cronfeydd strwythurol er mwyn darparu cymorth busnes integredig i fusnesau bach a chanolig eu maint. Gydag arian cyfatebol y Bwrdd Croeso yr oedd £12.6 miliwn ar gael hyd at Ragfyr 2002 ac yr oedd dyraniadau’n cael eu gwneud yn awr. Mae’r Bwrdd Croeso yn bwriadu gwneud cais am gronfeydd strwythurol dan Amcan 2 er mwyn rhoi cymorth tebyg i ardaloedd Amcan 2. Byddai’r swm yn llawer llai gan fod y gronfa gyffredinol yn llai.
- Yng nghyswllt cynllun adfer yn dilyn argyfwng clwy’r traed a’r genau dywedodd Gillian Berntsen fod yr adborth a oedd yn dod i law yn dangos bod yr argyfwng wedi cael effaith ddifrifol ar y diwydiant ymwelwyr. Yn y tymor byr yr oedd ar bobl angen cyngor yngl^yn â beth oedd ar agor a beth oedd yn bosibl. Cyn gynted ag y byddai’r argyfwng drosodd byddai angen trefnu ymgyrchoedd adfer hyder.

3.9 A oedd dull gweithredu rhagweithiol yn cael ei fabwysiadu er mwyn cynnig cymorth i gymunedau lleol?

- Dywedodd Hilary Hendy fod gan bob un o is-adrannau’r Awdurdod Datblygu reolwr marchnata a bod gwasanaethau’n cael eu darparu’n lleol.
- Dywedodd Wynfford James fod trefniadau cyflwyno’r Strategaeth Bwyd-Amaeth wedi eu cynllunio i fod yn rhagweithiol. Cyfeiriodd at y cynllun Blas o Gymru fel enghraifft lle’r oedd llysgenhadon yn ymweld â chlientau a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun er mwyn eu helpu i ddatblygu eu busnesau.
- Dywedodd Nigel Adams y bydd y Bwrdd Croeso yn rhoi cynllun peilot Rheolaeth Ansawdd Integredig ar waith yng Nghymru drwy ei Raglen Ardaloedd Cyrchfannau Twristiaeth er mwyn gwella ansawdd profiad y twristiaid tra’n sicrhau manteision i’r gymuned leol. Yr oedd swyddogion o’r Bwrdd Croeso a oedd wedi’u lleoli yng Nghaerdydd, Bae Colwyn, Machynlleth ac Abertawe ynghyd â’i ymgynghorwyr maes ar gael i gynnig cyngor i fusnesau twristiaeth.

3.10 Diolchodd y Cadeirydd i Hilary Hendy, Gill Berntsen a’u cydweithwyr am eu cyfraniad.

**Eitem 4: Cymorth gyda Straen yng Nghefn Gwlad Cymru -** ARD 04-01(p4)

4.1 Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog y papur gan ddweud ei fod yn nodi’r sefyllfa yn dilyn proses

ymgynghorol. Yr oedd cynhadledd ar straen yng nghefn gwlad i fod i gael ei chynnal ar 1 Mawrth ond cafodd ei chanslo o ganlyniad i achosion o glwy'r traed a'r genau.

4.2 Croesawyd yr hyn a oedd yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â straen yng nghefn gwlad a chodwyd nifer o faterion yn ystod y drafodaeth:

- gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a oedd y cynlluniau wedi eu trafod gyda MIND a'r Samariaid. Nododd y Pwyllgor fod y ddau fudiad a chyrff eraill a oedd â diddordeb wedi cyfrannu;
- a oedd galwadau ar y llinell gymorth yn cael eu hateb gan gynghorwyr busnes neu gynghorwyr a oedd wedi eu hyfforddi i wrando? Nododd y Pwyllgor fod y galwadau'n cael eu hateb gan wirfoddolwyr a oedd wedi eu hyfforddi ac a allai gyfeirio galwyr at ffynonellau cyngor priodol gan ddibynnu ar eu hanghenion. Yr oedd gwaith yn cael ei wneud er mwyn integreiddio a chyd-drefnu'r cyngor a ddarperid gan gyrff amrywiol. Y gobaith oedd y gellid sicrhau un rhif 0800 ar gyfer y llinell gymorth cyn diwedd y mis.
- yr oedd yn bwysig iawn bod digon o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r llinell gymorth. Sut oedd hyn yn cael ei wneud? Nododd y Pwyllgor fod trefniadau ar y gweill a'u bod yn cynnwys sticeri ffôn a bod adnoddau wedi eu nodi yn y gyllideb amaeth.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol** - ARD 03-01(min)
5.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei fod ef a'r Gweinidog wedi cytuno o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau, i ohirio'r drafodaeth ar y camau i helpu pobl ifanc sydd am ymuno â'r diwydiant a oedd i fod i gael ei chynnal yn y cyfarfod nesaf.

**Ysgrifenyddiaeth** **Mawrth 2001**

---

**Atodiad 1**

**Minister for Rural Affairs**
**Gweinidog dros Faterion Gwledig**

Mr Glyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Mawrth 2001

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 14 Mawrth, cytunodd y Dirprwy Weinidog dros Faterion Gwledig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y taliadau Tir Mynydd, a blaendaliadau'r Cynllun Premiwm Buchod Sugno.

Y sefyllfa ddiweddaraf, ar 16 Mawrth, yw bod 90% o'r ceisiadau Premiwm Buchod Sugno wedi cael eu prosesu ar gyfer gwneud y taliadau.

Fel y gwyddoch, am y tro cyntaf eleni, cafodd yr holl geisiadau Buchod Sugno eu dilysu gan ddefnyddio'r gronfa ddata Tagiau Clust Canolog. Dyma fu'n gyfrifol am yr oedi gyda'r blaendaliadau. Rhaid gwirio'r manylion hyn er mwyn bodloni'r Comisiwn Ewropeaidd ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gydymffurfio â'r gofynion o ran olrhain gwartheg. Mae'r broses ddilysu wedi amlygu ystod o gamgymeriadau yng ngheisiadau'r ffermwyr, er bod y rhan helaeth bellach wedi cael eu datrys, a'r taliadau wedi'u gwneud. Ni ellir talu'r holl geisiadau yn gyflym (er enghraifft, y rhai sy'n disgwyl profiant, neu sy'n destun anghydfod busnes) ond mae problemau dilysu'n parhau gyda chyfran fechan o'r ceisiadau. Ymdrinnir â'r ceisiadau hyn fesul achos unigol cyn gynted ag y bo modd. Dylai unrhyw ffermwr sy'n dioddef caledi ariannol o ganlyniad uniongyrchol i'r oedi gysylltu â'r Swyddfa Ranbarthol leol a fydd yn gwneud eu gorau i gyflymu'r taliad.

Yr wyf yn falch o ddweud, ar 19 Mawrth, fod dros £34m o daliadau Elfen 1 Tir Mynydd wedi'u prosesu. Golyga hyn fod 84% o'r ceisiadau cymwys ar gyfer Elfen 1 Tir Mynydd wedi cael eu talu. Fel yr wyf wedi dweud yn gyson, bydd y rhan fwyaf o'r taliadau sy'n weddill yn cael eu dosbarthu yn ystod mis Ebrill.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at holl aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

Yn gywir

Carwyn Jones AC

---

**Atodiad 2**

**Minister for Rural Affairs**
**Gweinidog dros Faterion Gwledig**

Mr Glyn Davies
Cadeirydd
Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

23 Mawrth 2001

Yr wyf yn cyfeirio at y drafodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 14 Mawrth, pan oedd Delyth Evans AC yn dirprwyo ar fy rhan, ac yn benodol at yr ymholiad yngln â thrafodaethau gyda Llywodraeth Iwerddon am fewnforio cynnyrch llaeth i Gymru. Cytunwyd y byddwn yn ysgrifennu atoch yngln â'r mater hwn.

Gallaf gadarnhau na chynhaliwyd trafodaethau o'r fath hyd yma. Mae Gweinidog Amaethyddiaeth Iwerddon wedi fy ngwahodd i ymweld ag Iwerddon, a bwriadaf fynd yno pan fydd yr amgylchiadau yng Nghymru yn caniatáu hynny. Mae'n debyg y bydd y sector llaeth yn un o'r pynciau trafod yn ystod yr ymweliad.

Yr wyf wedi trefnu i holl aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig dderbyn copi o'r llythyr hwn.

Yn gywir

Carwyn Jones AC

---

**Atodiad 3**

**CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU: CYMORTH LLIFOGYDD**

**Nodyn gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig**

Soniwyd am gymorth llifogydd o dan y Cynllun Datblygu Gwledig yn nghyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 14 Mawrth. Mae'r nodyn hwn yn egluro beth yw'r sefyllfa.

Paratowyd y Cynllun o dan Reoliad 1257/1999 y Cyngor, sy'n cyfuno nifer o reoliadau blaenorol ac yn caniatáu rhoi mesurau ar waith i gynorthwyo'r diwydiant ffermio a chymunedau gwledig. Mae Erthygl

33 o Reoliad 1257/1999 yn rhestru 13 o fesurau y mae'r Aelod-wladwriaethau'n gallu eu gweithredu, yn ôl eu disgresiwn, fel rhan o'u Cynlluniau. Gellir defnyddio 2 o'r mesurau hyn i gynnig cymorth llifogydd:

- rheoli adnoddau dwr amaethyddol
- adfer potensial cynhyrchu amaethyddol a niweidiwyd gan drychinebau naturiol, a chyflwyno offer atal priodol.

Roedd y Cynllun a gyflwynwyd gan y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Hydref 2000 yn datgan, "Given the relatively low level of EAGGF funding available for Article 33 measures under the RDP, support will be restricted to five measures". Ni chafodd y mesurau a restrir uchod eu dewis ar gyfer cymorth.

Byddai'n bosibl diwygio'r Cynllun i ddarparu cymorth ar gyfer un, neu'r ddau fesur a restrir uchod. Er hyn:

- mae gofyn cyfiawnhau'r cynigion ar gyfer addasu'r Cynllun o safbwynt problemau gweithredu sy'n arwain at yr angen i'w addasu.
- dylid cyflwyno diwygiadau i'r Comisiwn mewn un cynnig bob blwyddyn.
- rhaid i'r cynnig i roi adnoddau i un, neu'r ddau fesur, gynnwys cynnig ar gyfer gostwng y dyraniadau i fesurau eraill yn y Cynllun cymeradwy oherwydd bod cyfanswm yr adnoddau EAGGF sydd ar gael i Gymru o dan y Cynllun wedi'i ddyrannu eisoes, ac nid oes adnoddau ychwanegol ar gael gan y Comisiwn ar gyfer y mesurau hyn nac unrhyw fesurau eraill.

---

**Atodiad 4**

**SAFLEOEDD TREIALU GM**

Nid yw un o’r safleoedd treialu GM yng Nghymru. Mae’r safleoedd lle mae organebau a addaswyd yn enetig i’w rhyddhau o dan Ran B o Gyfarwyddeb 90/220/EEC o leiaf 5 milltir y tu draw i ffin Cymru. Y safleoedd agosaf yw Bagley ac Ash Magna, Sir Amwythig.

**Yr Is-adran Cefn Gwlad**